Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**The Mountains**

**Cartref Nyrsio The Mountains**
**Libanus**
**Aberhonddu**
**LD3 8EN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# The Mountains

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir. | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Milkwood Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 56 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 9 Ionawr, 2024 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae cartref The Mountains yn darparu gofal a chymorth o ansawdd da i bobl, a hynny mewn amgylchedd glân a diogel. Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch a gallant ddewis sut i dreulio eu hamser. Mae gan y bobl gydberthnasau cadarnhaol â'r staff gofal sy'n eu cefnogi. Mae gan y bobl gynlluniau cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gaiff eu llunio a'u hadolygu ar y cyd â nhw, neu eu cynrychiolydd, yn rheolaidd. Caiff y bobl eu cefnogi gyda'u llesiant, eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl.

Mae'r staff gofal ymroddedig yn ofalgar, yn cael eu recriwtio mewn ffordd ddiogel ac yn cael eu hyfforddi'n dda. Mae'r staff yn mwynhau treulio amser gyda'r bobl maent yn eu cefnogi. Mae gan y staff gofal lefel uchel o hyder yn rheolwyr y gwasanaeth. Mae trefniadau da ar waith ar gyfer rheoli a goruchwylio'r gwasanaeth.

## Llesiant

Mae gan bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd ac maent yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau am eu dillad, prydau, gweithgareddau a sut i dreulio eu diwrnod. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys wrth gynllunio eu gwasanaeth a chaiff eu lleisiau eu clywed. Gall yr unigolion bersonoli eu hystafelloedd â'u lluniau a'u heiddo personol, gan greu ymdeimlad o berthyn. Caiff hoff fwydydd a chas fwydydd y bobl eu deall a cheir dewis o fwydlen. Caiff y bobl eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu y tu mewn a'r tu allan i'r cartref, gan wneud y pethau sy'n eu gwneud yn hapus.

Caiff iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl eu cynnal yn dda. Mae gan y tîm o staff gydberthnasau da â'r bobl ac maent yn deall eu hanghenion, sy'n eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Dywedodd cynrychiolydd un o'r bobl wrthym, *“The staff are lovely and I love coming over to see how my wife is progressing.”*

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o safon dda gan staff gofal sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiogel a'u sefydlu ac sy'n cael hyfforddiant parhaus. Mae'r asesiadau risg unigol yn nodi risgiau ac yn darparu cyfarwyddyd er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel ac yn iach.

Gall y bobl gynnal y cydberthnasau sy'n bwysig iddynt, gan gefnogi eu llesiant. Mae'r trefniadau ymweld hyblyg yn sicrhau y gall y bobl gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau. Caiff ymwelwyr eu hannog i siarad â'r rheolwr os bydd ganddynt bryderon, ac maent yn gwneud hynny'n hyderus.

Rhoddodd y bobl a'u cynrychiolwyr adborth cadarnhaol am eu profiad o gartref The Mountains. Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth, *“They’re good at this, I couldn’t find better care.”*

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl sy'n defnyddio cartref The Mountains fod yn hyderus bod y gwasanaeth yn deall eu hanghenion a'u canlyniadau personol. Caiff y bobl eu hasesu gan uwch-aelod o'r staff cyn cael gwasanaeth, gan ystyried gwybodaeth gan yr unigolyn, ei gynrychiolwyr ac eraill. Mae darparwr y gwasanaeth yn ystyried yr asesiadau hyn a gwybodaeth arall sydd ar gael er mwyn cadarnhau y gall ddiwallu anghenion yr unigolyn cyn iddo symud i'r cartref. Dywedodd un unigolyn wrthym ei fod wedi cyfarfod â'r Arweinydd Clinigol cyn symud i mewn a'i fod wedi gwerthfawrogi'r cyfle hwn.

Mae'r gwasanaeth wedi rhoi system electronig newydd ar waith ar gyfer rheoli'r cynlluniau gofal. Dywedodd aelod o'r staff wrthym, *“The new system is easy to use, user friendly and accessible.”* Gall y bobl fod yn hyderus bod eu cynlluniau personol yn gywir ac yn gyfredol. Mae'r cynlluniau personol yn adlewyrchu anghenion gofal a chymorth y bobl ac yn nodi eu dewisiadau, eu hoff bethau a'u cas bethau. Caiff y cymorth sydd ei angen i gyflawni canlyniadau personol, risgiau posibl a strategaethau i gadw'r bobl yn ddiogel hefyd eu cofnodi mewn cynlluniau unigol. Caiff y bobl a'u cynrychiolwyr eu cynnwys wrth gynllunio eu gofal a'u cymorth.

Mae'r bobl yn canmol safonau'r gofal a'r cymorth a gânt. Caiff y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ofal gan staff sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n deall eu hanghenion. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol a chynnes rhwng y bobl a'r staff gofal. Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *“I'm very happy here, to be honest with you.”* Dywedodd unigolyn arall wrth sôn am y staff, *“Brilliant, I can't fault them whatsoever.”* Dywedodd cynrychiolydd unigolyn a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *“You won't get a better nursing home than this.”*

Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal eu llesiant cyffredinol drwy gael cyfleoedd i weld gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a chaiff eu cyngor proffesiynol ei adlewyrchu yn eu cynlluniau. Gwelsom gofnodion monitro cyson o'r gofal a'r cymorth a gafodd y bobl. At hynny, caiff y bobl eu cadw'n ddiogel gan staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac sy'n deall eu cyfrifoldebau i roi gwybod am unrhyw bryderon.

Mae'r trefniadau ar gyfer storio a rhoi meddyginiaeth yn cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol. Fel arfer, caiff cofnodion meddyginiaeth eu cwblhau, ond nodwyd rhai bylchau mewn archwiliadau meddyginiaeth. Mae'r Arweinydd Clinigol wedi rhoi sicrwydd bod newidiadau wedi cael eu rhoi ar waith i atal unrhyw fylchau pellach yn yr archwiliadau meddyginiaeth. Caiff cofnodion meddyginiaeth eu cwblhau'n llawn, mae'r trefniadau storio yn ddiogel ac mae'r broses gyffredinol ar gyfer meddyginiaethau a chyffuriau a reolir yn effeithiol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn personoli eu hystafelloedd â'u heiddo a'u lluniau eu hunain. Mae dwy lolfa ac ystafell fwyta ar wahân ym mhrif ran yr adeilad, sy'n cynnig mannau i'r bobl ryngweithio â'i gilydd, â'u hymwelwyr a chyda'r staff. Os byddai'n well ganddynt gael tawelwch, mae lolfa arall ar gael i'r bobl ei defnyddio hefyd. Mae canllawiau cydio ym mhob rhan o'r gwasanaeth, sy'n helpu'r bobl i symud o gwmpas yn ddiogel.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân a thaclus a gaiff ei gynnal a'i gadw'n dda. Caiff gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd eu cwblhau er mwyn cadarnhau bod yr holl gyfarpar y mae angen ei wasanaethu yn cael ei gynnal a'i gadw a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Mae'r staff domestig yn sicrhau bod y cartref bob amser yn lân ac yn hylan. Mae'r darparwr yn cynnal archwiliad rheolaidd o'r amgylchedd ac yn cynllunio ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gwelliannau.

Mae cyfleusterau ensuite ym mhob un o'r ystafelloedd gwely. Mae'r cyfleusterau ymolchi cymunedol hygyrch yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r staff domestig yn sicrhau bod y cartref bob amser yn lân ac yn hylan.

Cafodd y gegin sgôr o bump gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Dyma'r sgôr uchaf posibl ac mae'n awgrymu bod safonau glendid a hylendid y gegin yn dda iawn.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi mewn amgylchedd diogel. Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau y caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu nodi a'u lliniaru. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng ar waith, sy'n disgrifio'r gweithdrefnau ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng neu os bydd tân.

Caiff gwiriadau diogelwch tân eu cwblhau yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif diogelwch gyfredol ar gyfer cyfleustodau, cyfarpar a diogelwch tân.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu da ar waith gan yr Unigolyn Cyfrifol er mwyn helpu'r gwasanaeth i weithredu'n effeithiol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld o leiaf unwaith y mis ac mae'n cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn archwilio'r gwasanaeth ac yn cyfarfod â'r preswylwyr a'r tîm o staff yn rheolaidd. Ymgynghorir â'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u cynrychiolwyr a defnyddir eu hadborth i wella'r gwasanaeth. Rhoddir adborth o archwiliadau i'r tîm rheoli a'r staff. Caiff meysydd i'w datblygu neu gamau i'w cymryd eu nodi a'u cofnodi.

Darperir y gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben.

Nododd y staff gofal fod morâl y staff wedi gwella cryn dipyn ers adeg yr arolygiad diwethaf. Dywedodd y staff fod eu rolau wedi'u diffinio'n gliriach a'u bod hefyd yn cydweithio'n agosach. Dywedodd aelod o'r staff wrthym, *"There has been a culture shift where we help each other."* Mae gan y staff hyder yn y rheolwr a gwnaethant ddweud wrthym, *"He's brought the care home on in leaps and bounds"*. Mae diwylliant o gyfathrebu agored a dywedodd y staff wrthym eu bod yn  teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Dywedodd y staff wrth sôn am y rheolwr, *"He takes on board staff opinions and views."*

Caiff y bobl eu cefnogi gan aelodau o staff sydd wedi'u fetio a'u hyfforddi'n addas i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol. Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac maent yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd, ond nid ydynt bob amser yn cael eu cynnal yn unol â'r amserlenni a argymhellir. Ceir agwedd gadarnhaol tuag at hyfforddiant ac mae darparwr y gwasanaeth yn buddsoddi i ddatblygu ei staff. Dywedodd aelod o'r staff wrthym, *"They've put a lot of training into me and that makes me feel valued."* Mae lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn uchel, mae'r rhan fwyaf o'r staff gofal wedi cwblhau lefel dda o hyfforddiant.

Mae'r lefelau staffio ar hyn o bryd yn well na'r lefelau a gyfrifwyd gan ddefnyddio adnodd dibyniaeth y darparwr. Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth lle ceir digon o staff sydd wedi cael eu hyfforddi'n briodol i ddarparu'r lefel o ofal a chymorth sydd ei hangen arnynt. Mae'r staff o'r farn fod digon o weithwyr gofal ar ddyletswydd. Dywedwyd wrthym "*There is a higher staffing ratio here than other care homes because of the complexity of the resident's needs."*

Mae trefniadau da ar waith i helpu i redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r strwythur staffio yn glir ac roedd pob aelod o staff y gwnaethom siarad ag ef yn deall ei rolau a'i gyfrifoldebau. Mae'r staff a'r bobl yn teimlo'n hyderus yn y ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli. Dywedodd cynrychiolydd un o'r preswylwyr wrthym fod y staff yn *"Absolutely superb."*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 21 | Nid yw'r darparwr yn sicrhau bod y bobl yn cael gofal a chymorth yn unol â'u cynlluniau personol. | Cyflawnwyd |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol yn rhoi canllawiau clir ac adeiladol i'r staff gofal ynglŷn â'r unigolyn, ei anghenion gofal a chymorth a sut y dylid eu diwallu. Mae'r wybodaeth yn y cynlluniau yn anghyson ac yn ddryslyd. | Cyflawnwyd |
| 58 | Nid yw'r prosesau ar gyfer meddyginiaethau yn ddigonol i nodi gwallau meddyginiaeth ac maent yn | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | parhau i beri risg i'r bobl. | |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 35 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod yr holl wybodaeth recriwtio berthnasol ar gael cyn i unigolion ddechrau gweithio. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/08/2024